3.10 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i adrodd ar nifer y sesiynau theatr a ganslwyd. Ar draws y sesiynau a gynhaliwyd, pump y cant oedd cyfradd y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2012-13, er nad oes gwybodaeth ar gael am Ysbyty Bronglais. Ysbyty Llwynhelyg oedd â'r gyfradd uchaf o lawdriniaethau a ganslwyd yn y Bwrdd Iechyd (saith y cant). Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi gosod targed ar gyfer llawdriniaethau a ganslwyd ar ddiwrnod y llawdriniaeth o ddau y cant. Er nad yw'r gyfradd o lawdriniaethau a ganslwyd yn y Bwrdd Iechyd yn llawdriniaethau a ganslwyd ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn unig, mae angen archwilio'r cyfraddau uwch hyn i ddeall y rhesymau pam bod llawdriniaethau'n cael eu canslo. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw 3.2 diwrnod, sy'n is na tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru, a'r isaf yng Nghymru. Mae perfformiad pedwar ysbyty'r Bwrdd Iechyd yn amrywio, ond mae pob un yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Yr hyd arhosiad byrraf ar gyfartaledd yw 2.5 diwrnod yn Ysbyty Glangwili, a'r hyd arhosaf hiraf ar gyfartaledd yw 3.7 diwrnod yn Ysbyty Bronglais.

3.12 Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd hefyd yn cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru a bennwyd ar gyfer y triniaethau hyn (Arddangosyn 25), ac eithrio ar gyfer llawdriniaethau i osod clun newydd yn Ysbyty Tywysog Philip, sy'n 6.4 diwrnod ac yn hirach na tharged Llywodraeth Cymru.

